

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU A GYNHALIWDYD O BELL - AR MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026 AM 10:00

Yn Bresennol - Yn Rhithwir

Y Cyngorydd RM Granville – Cadeirydd

RJ Collins
M L Hughes
J Llewellyn-Hopkins
I Williams

C L C Davies
D M Hughes
J E Pratt
R Williams

S J Griffiths
M R John
I M Spiller

D T Harrison
W J Kendall
A Wathan

Swyddogion:

Huw Boaler
Alex Carey
Rhodri Davies
Gillian Dawson
Craig Flower
Dion Douglas
Stephen Griffiths
Abigail James
Steven Jenkins
Adrian Jones
Christopher Lewis
Moiria Lucas
Stuart Mander
Robert Morgan
Janine Nightingale
Jonathan Parsons
Michael Pitman
Adam Provoost
Michelle Smith

Uwch Swyddog Cynllunio
Prif Swyddog - Datblygu Priffyrdd
Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu
Cyfreithiwr - Cynllunio
Arweinydd Tîm Cymorth Cynllunio
Prif Swyddog Cynllunio
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Cynllunio
Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu
Swyddog Gorfodi Cynllunio
Rheolwr Prosiect - Moderneiddio Ysgolion
Uwch Swyddog Sgwrsio a Dylunio
Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Tai a Digartrefedd
Prif Swyddog Rheoli Datblygu Priffyrdd
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

Leigh Tuck
Chris Waite

Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Prif Dechnolegydd Pensaernïol

259. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

260. Datgan Buddiannau

Penderfyniad a Wnaed	Eitem 8 ar yr Agenda: Y Cynghorydd J E Pratt – Personol – Aelod o Gyngor Tref Porthcawl. Eitem 9 ar yr Agenda: Y Cynghorwyr I M Spiller, A Wathan ac I Williams – Personol – Aelodau o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Eitem 11 ar yr Agenda: Y Cynghorydd J E Pratt – Rhagfarnus – Aelod o'i deulu yn mynychu Ysgol Iau Mynydd Cynffig. Eitem 12 ar yr Agenda: Y Cynghorydd J E Pratt – Rhagfarnus – Aelod o'i deulu yn mynychu Ysgol Gynradd Porthcawl.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

261. Ymweliadau Safle

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwywyd dyddiad Dydd Mercher 02/09/2026 ar gyfer archwiliadau safle a gododd yn y cyfarfod neu
----------------------	--

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

	a nodir gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

262. Cymeradwyo Cofnodion

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 11 Mehefin 2026, yn cael eu cymeradwyo fel cofnodion gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

263. Siaradwyr Cyhoeddus

Penderfyniad a Wnaed	Roedd y siaradwyr cyhoeddus canlynol wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod heddiw, i drafod Cais Cynllunio P/25/737/FUL: Y Cynghorydd S Bletsoe Y Cynghorydd D Unwin – Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr Mike Williams Liam Griffiths-Downing
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

264. Dalen Ddiwygio

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cadeirydd wedi derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor. Roedd hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried unrhyw addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried unrhyw sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen ymdrin â nhw.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

265. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn nodi Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y dangosir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

266. P/25/20/FUL - Hen Fwyty Fulgoni's, 83 John Street, Porthcawl CF36 3AY

Penderfyniad a Wnaed	<u>Y Cynnig:</u> Dymchwel yr adeiladau ar safle hen fwyty Fulgoni's a'i ailddatblygu i greu adeilad tirnod pum llawr sy'n cynnwys 43 o fflatiau fforddiadwy, gofod masnachol/cymunedol a mynediad wedi'i addasu, a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys is-orsaf. Cafodd y Cais a'r Argymhelliad gwreiddiol eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 11 Mehefin
----------------------	--

	2026. Pleidleisiodd yr Aelodau yn erbyn yr Argymhelliad i ganiatáu'r Cais o saith (7) pleidlais i chwech (6). Ystyriwyd y Cais yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Yr argymhelliad oedd cymeradwyo yn amodol ar ymrwymo i gytundeb adran 106 i sicrhau'r rhwymedigaethau cynllunio sy'n ofynnol o dan Argymhelliad (A) a'r amodau cynllunio sy'n ofynnol o dan Argymhelliad (B) gan fod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi a chanllawiau CDLIN y Cyngor. Trafododd yr aelodau'r cais a chytunwyd i bleidleisio ynghylch a ddylid ei gymeradwyo yn amodol ar gydsyniad amodol. Canlyniad y bleidlais oedd GWRTHOD y cais o wyth (8) pleidlais i bedair (4). <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y cais uchod yn cael ei WRTHOD am y rhesymau canlynol yn yr adroddiad atodol: 1. Byddai'r datblygiad arfaethedig, oherwydd ei uchder, ei raddfa, ei led, ei swmp a'i faint gormodol, yn arwain at ddatblygiad sy'n or-ddominyddol ac yn ymwithiol yn weledol sy'n methu â pharchu nodweddion lleol, yn groes i Bolisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024) a'r cyngor a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru 12 (2024) a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016). 2. Mae'r datblygiad arfaethedig, oherwydd ei ddyluniad, yn methu ag ymateb yn ddigonol i gyd-destun lleol, ffurf drefol a chymeriad sefydledig a threflun John Street, a byddai'n dominyddu'r amgylchedd adeiledig cyfagos, yn groes i Bolisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024) a'r cyngor a gynhwysir yn Nodyn 08 y Canllawiau Cynllunio Atodol: Datblygiad Preswyl (2008). 3. Byddai'r datblygiad arfaethedig, oherwydd ei ddyluniad, ei raddfa a'i leoliad, yn arwain at nodwedd a fyddai'n rhy amlwg ac ymwithiol wrth edrych arno o Ardal Gadwraeth Porthcawl, gan fethu â diogelu na gwella ei leoliad, yn groes i Bolisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024) a'r cyngor a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru 12 (2024), Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2026) a Rhan 4 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

267. P/25/737/FUL - Tir ger 44 Canberra Road, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1HH

Penderfyniad a Wnaed	Y Cynnig: Dymchwel y garejys presennol ac adeiladu 6 fflat 1 ystafell wely a gwaith cysylltiedig <u>PENDERFYNWYD:</u> (A) CANIATÁU y cais uchod a'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i: (1) Ddarparu cyfraniad ariannol o £8,757.55 (Cysylltiedig â Mynegai) ar gyfer gwella cyfleusterau hamdden awyr agored a/neu welliannau i'r tir cyhoeddus ger y datblygiad arfaethedig. (B) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cyhoeddi hysbysiad penderfynu yn rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn yn amodol ar ac ar ôl i'r Ymgeisydd ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106, yn amodol ar yr Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau. Yn amodol ar gynnwys Amodau ychwanegol 20 a 21 i'r caniatâd: 20. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod cynllun wedi'i gyflwyno i, a'i gytuno'n ysgrifenedig gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi'r lleoliadau, dyluniad, deunyddiau a math o driniaeth ffiniau sydd i'w codi ac amserlen ar gyfer ei weithredu. Bydd y datblygiad yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gytunwyd. Rheswm: Sicrhau bod amwynderau cyffredinol yr ardal yn cael eu diogelu yn unol â Pholisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2024. 21. Ni fydd unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys unrhyw waith dymchwel/clirio safle, yn digwydd nes bod Datganiad Dull Dymchwel ac Adeiladu wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno ganddo yn ysgrifenedig. Bydd y Datganiad yn darparu ar gyfer: i. Llwybr y traffig dymchwel ac adeiladu i/o'r safle o Heol Coety
----------------------	--

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

	ii. Pwysau a maint peiriannau a chyflenwadau deunyddiau er mwyn sicrhau mynediad addas o Heol Coety iii. parcio cerbydau gweithwyr ar y safle ac ymwelwyr iv. llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau v. storio peiriannau a deunyddiau sy'n deillio o'r dymchwel ac a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad vi. manylion mesurau i ddiogelu'r cyhoedd yn ystod y gwaith dymchwel ac adeiladu vii. trefniadau golchi olwynion Bydd y gwaith dymchwel ac adeiladu yn cael ei wneud yn unol â'r Datganiad y cytunwyd arno ac yn cael ei weithredu drwy gydol cyfnod y gwaith dymchwel ac adeiladu. Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd a'r cyhoedd ac i gydymffurfio â Pholisïau SP3 ac SP5 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2024.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

268. P/24/457/FUL - Tir i'r de-orllewin o Bont Rhyd y Cyff, Llangynwyd

Penderfyniad a Wnaed	Y Cynnig: Datblygiad preswyl arfaethedig o hyd at 122 o anheddau newydd, mynediad, tirlunio, draenio, trawsleoli a gwella mawn, gwelliannau bioamrywiaeth, peirianneg a gwaith cysylltiedig (disgrifiad diwygiedig a llinell goch, lleihau nifer y tai a diwygio'r cynllun i gadw ardal o fawn (in situ) ac adleoli ardal arall o fawn i safle derbyn). Cytunodd y Pwyllgor i bleidleisio ynghylch a ddylid caniatáu'r cais ai peidio. Pleidleisiodd yr Aelodau o blaid yr Argymhelliad i GANIATÁU y Cais o ddeuddeg (12) pleidlais i ddwy (2). <u>PENDERFYNWYD:</u> (A) CANIATÁU y cais uchod a'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i sicrhau fel a ganlyn:
----------------------	--

	(1) 15% (18 uned) o gyfanswm nifer yr unedau preswyl (122) fel unedau tai fforddiadwy yn y cymysgedd 6 x uned 1 ystafell wely (fflatiau cerdded a fflatiau mynediad cymunedol), 2 x uned 2 ystafell wely (fflatiau cerdded a fflatiau/tai mynediad cymunedol). 1 x uned 3 ystafell wely (tŷ), unedau rhent cymdeithasol a 5 x uned 2 ystafell wely (fflatiau cerdded a fflatiau/tai mynediad cymunedol), 4 x uned 3 ystafell wely (tai), unedau canolradd; (2) cyfraniad ariannol o £593,347.16 (Cysylltiedig â Mynegai) tuag at ddarpariaeth Addysg o fewn ardal safle'r Cais; (3) cyfraniad ariannol o £262,390.55 (Cysylltiedig â Mynegai) tuag at uwchraddio Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored a/neu dir cyhoeddus o fewn ardal safle'r Cais; (4) ffi o £360 tuag at archwilio/ardystio Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored ar y safle; (5) Na fydd gwaith adeiladu yn dechrau ar unrhyw annedd yn unol â'r Cais hwn oni bai a hyd nes (i) bod yr Ymgeisydd wedi ymrwymo i Gytundeb s278/s111 wedi'i gwblhau ar gyfer y Gwaith Llwybr Teithio Llesol (LITLI) a (ii) bod dechrau sylweddol ar y Gwaith LITLI wedi digwydd ac wedi cael ei ddangos i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Awdurdod Prifffyrdd a'i gadarnhau'n ysgrifenedig i'r Ymgeisydd; (6) cyfraniad ariannol o £9,000 (Cysylltiedig â Mynegai) tuag at Orchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT) i dalu'r gost o wneud a chyhoeddi Gorchmynion GRhT; (7) Cyfraniad ariannol o £9,333 (Cysylltiedig â Mynegai) (sy'n cynrychioli dosraniad o draean o gyfanswm y gofyniad cyllido ar draws y 3 safle tai a ddyrannwyd), tuag at uwchraddio'r safleoedd bws ger y datblygiad; (8) cyfraniad ariannol o £10,000 (Cysylltiedig â Mynegai) tuag at ail-wynebu a/neu wella Hawl Dramwy Gyhoeddus 'FP1 Canol Llangynwyd'; (9) Bydd yr holl fannau agored cyhoeddus a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored yn cael eu (i) cyflwyno a (ii) eu cynnal a chadw gan y datblygwr i safon sy'n dderbyniol i'r Cyngor nes bod y cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor / Cwmni Rheoli i'w fabwysiadu.
--	---

	(B) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cyhoeddi hysbysiad penderfynu yn rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn yn amodol ar ac ar ôl i'r Ymgeisydd ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106, yn amodol ar yr Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau. Yn amodol ar ddiwygio Amod 24 (<u>Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu</u>) a ddangosir mewn print trwm: 24. Ni fydd unrhyw ddatblygiad, ac eithrio gwaith paratoi'r safle, ffensys/palisau dros dro, arolygon, ymchwiliadau tir, ymchwiliadau archeolegol, ymchwiliadau halogiad, gwaith unioni, gwaith lliniaru/diogelu ecolegol a gosod mesurau diogelu coed/cynefinoedd, yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CRhAA) safle gyfan wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddynt. Bydd y CRhAA yn cynnwys: a) Dulliau adeiladu: Datganiad dull, manylion deunyddiau, sut y bydd y gwastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli. b) Gwaith Rheoli Safle Cyffredinol: manylion y rhaglen adeiladu gan gynnwys amserlen, manylion clirio'r safle; manylion draenio'r safle, ardaloedd ynysu, parthau clustogi o faint priodol rhwng ardaloedd storio (sborion, olewau, tanwyddau, ardaloedd cymysgu concrit a golchi) ac unrhyw gwrs dŵr neu ddraen arwyneb. c) Rheoli Pridd: manylion y llain uwchbridd, ei storio a'i wella er mwyn ei ail-ddefnyddio. d) Uwchgynllun CRhAA: manylion am raddfa a chamau datblygu; lleoliad tirwedd ac adnoddau amgylcheddol; dylunio cynigion ac amcanion ar gyfer mesurau integreiddio a lliniaru. e) Rheoli Adnoddau: manylion storio ac ynysu tanwydd a chemegion; manylion cynhyrchu gwastraff a'i reoli; manylion defnydd dŵr, dŵr gwastraff a defnydd ynni. f) Rheoli Traffig: manylion danfoniadau i'r safle a chyfleusterau golchi olwynion a mesurau i reoli llwch. g) Atal Llygredd: dangos sut y bydd canllawiau perthnasol ar gyfer atal llygredd ac arfer gorau yn cael eu gweithredu, gan gynnwys manylion gweithdrefnau gollyngiadau brys a chynllun ymateb i ddigwyddiadau. h) Personau Cyfrifol: Manylion y bobl a'r cyrff sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r CRhAA a manylion cyswllt brys. i) Sŵn a Niwsans: manylion sy'n ymwneud â lliniaru sŵn a dirgryniadau, oriau gweithredu/adeiladu, amserlenni ar gyfer camau a mesurau i reoli llwch a baw, a mesurau i reoli llygredd golau yn ystod y gwaith adeiladu. j) Rheoli Bioamrywiaeth: manylion coed, cynefinoedd a gedwir, gwarchod gwrychoedd gan gynnwys
--	--

	parthau clustogi; rheoli rhywogaethau goresgynnol; gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd; mesurau osgoi a lliniaru; methodoleg clirio ymlusgiaid a rheoli rhywogaethau eraill; manylion y cyflwyniad gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr safle mewn perthynas â chlirio ymlusgiaid, a manylion yr ecolegydd a fydd yn rhoi'r cyflwyniad ac ar alw. k) Draenio Gwaith Adeiladu: manylion draenio'r gwaith adeiladu gan gynnwys sut y byddai'r corff mawn a gedwir a'i barth clustogi yn cael eu diogelu rhag halogion o ddŵr wyneb yn ystod y gwaith adeiladu a mesurau i atal unrhyw ddŵr halogedig sy'n deillio o waith adeiladu ac unrhyw nodweddion draenio SAB rhag mynd i mewn i'r ardal fawn warchodedig a'i barth clustogi, a manylion am sut y bydd y ffosydd/cyrsiau dŵr presennol yn cael eu diogelu rhag dŵr ffo a llygredd. Ni fydd unrhyw waith clirio llystyfiant nac adeiladu sylweddol yn dechrau nes bod y CRhAA wedi'i gymeradwyo, a bydd y CRhAA y cytunir arno yn cael ei weithredu fel y'i cymeradwyir yn ystod camau paratoi'r safle ac adeiladu'r datblygiad. Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y mesurau rheoli angenrheidiol yn cael eu cytuno cyn dechrau'r datblygiad a'u gweithredu er mwyn diogelu'r amgylchedd yn ystod y gwaith adeiladu ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP3, SP17 a DNP5, DNP6, DNP8 a DNP9 yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024). <u>Amod Newydd 45 (Cynllun draenio cynhwysfawr)</u> 45. Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau ar y safle hyd nes y bydd cynllun ar gyfer draeniad cynhwysfawr ac integredig y safle, sy'n dangos sut y bydd dŵr to ac iard yn cael ei drin, gan gynnwys gofynion cynnal a chadw yn y dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid gweithredu'r cynllun cymeradwy cyn defnydd buddiol. Rheswm: er mwyn sicrhau bod cyfleusterau draenio effeithiol yn cael eu darparu ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac nad yw'r risg o lifogydd yn cynyddu, ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP3 a DNP9 yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024). Bydd Nodyn cynghori diwygiedig ar ddraenio yn darllen fel a ganlyn (testun newydd mewn print trwm): F) NODYN CYNGHORI DRAENIO
--	--

	Gan fod y datblygiad dros 100 m2 bydd angen cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy. O 7 Ionawr 2019, bydd angen draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd lle mae'r arwynebedd adeiladu yn fwy na 100m2, i reoli dŵr wyneb ar y safle. Rhaid i'r systemau draenio dŵr wyneb gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau ar gyfer draenio cynaliadwy. Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan y corff sy'n cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy (CCDC) cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Rhaid i'r Ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais draenio cynaliadwy i CCDC Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth newydd, gan gynnwys y ffurflen gais ar gyfer draenio cynaliadwy, ar gael drwy'r ddolen ganlynol: https://www.penybontarogwr.gov.uk/preswylwyr/natur-a-r-amgylchedd/lifogydd/systemau-draenio-cynaliadwy/ Er mwyn bodloni amod 45, rhaid i'r ymgeisydd: • Ddarparu cynlluniau draenio dŵr wyneb diwygiedig; • Cyflwyno ceisiadau caniatâd cwrs dŵr cyffredin ar gyfer unrhyw addasiadau i gyrsiau dŵr presennol i'r tîm draenio tir; • Darparu cyfrifiadau hydrolig i gadarnhau nad yw'r safle yn gorlifo yn ystod digwyddiad storm unwaith mewn 100 mlynedd + 30% CC; • Darparu cynllun cynnal a chadw dŵr wyneb i gadarnhau gweithgareddau cynnal a chadw a pherchnogion; • Cyflwyno Cais Draenio Cynaliadwy i CCDC Pen-y-bont ar Ogwr – SAB@bridgend.gov.uk Rhaid cymeradwyo'r cais CCDC cyn dechrau'r gwaith adeiladu.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

269. P/24/719/BCB - Ysgol Iau Mynydd Cynffig, Stryd Pwllgath, Mynydd Cynffig CF33 6ET

Penderfyniad a Wnaed	Cynnig
----------------------	--------

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

	Dymchwel Ysgol Iau Mynydd Cynffig, cyfleuster y Corfflu Hyfforddiant Awyr, ardal chwarae a cholli gerddi rhandir ac adeiladu ysgol gynradd newydd, 2 gae chwaraeon pob tywydd, paneli solar, darpariaeth rhandir newydd, ardaloedd chwarae, mannau agored, trefniadau mynediad a phriffordd, parcio, tirlunio, draenio, lliniaru ecolegol oddi ar y safle ym Mharc Bedford a Choetiroedd Ton-du a'r holl waith cysylltiedig arall. <u>PENDERFYNWYD:</u> CANIATÁU y cais uchod, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, AC Yn amodol ar y diwygiad i Amod 9 o'r adroddiad, fel a ganlyn: 9. O fewn chwe mis i gwblhau meddiannaeth a defnydd buddiol Cam 1 y datblygiad (Lluniad A105 CYNLLUNIO STRATEGAETH FESUL CAM ADOLYGIAD A), bydd yr ardaloedd parcio, gwasanaethu a storio beiciau cymeradwy (gan gynnwys gwefru cerbydau trydan, lleoedd i ddeiliaid bathodynau glas, a mannau gollwng ADY) wedi'u hadeiladu a'u gweithredu'n llawn, ac ar gael i'w defnyddio. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu cadw ar ôl hynny at eu diben dynodedig. Rheswm: Er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol oddi ar y stryd ar gyfer cerbydau, beicwyr a defnyddwyr gwasanaeth a chydymffurfio â Pholisi SP5 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr (2024).
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

**270. P/25/553/BCB - Ysgol Gynradd Porthcawl, Meadow Lane, Porthcawl
CF36 5EY**

Penderfyniad a Wnaed	Y Cynnig: Adeiladu Ysgol Egin Cyfrwng Cymraeg o fewn ffin safle Ysgol Gynradd Porthcawl, gan gynnwys maes parcio, man chwarae awyr agored a dau gae pob tywydd i'w defnyddio gan Ysgol Gynradd Porthcawl.
----------------------	---

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

	<u>PENDERFYNWYD:</u> CANIATÁU y cais uchod, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

271. Apeliadau

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Nodi'r apeliadau oedd wedi'u derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y manylir arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

**272. Amserlen ar gyfer Paratoi'r Gyfres Nesaf o Ganllawiau Cynllunio Atodol
2026/27**

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yr adroddiad. Nododd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ymhellach y cynnydd ar y CCA arfaethedig newydd ar gyfer Cyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl (Hyrwyddwyr Aelodau: Y Cynghorwyr Griffiths, Haines a Hughes) AC enwebwyd yr Aelodau canlynol i hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu'r CCAau arfaethedig newydd a fydd yn
----------------------	--

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2026

	cael eu datblygu drwy gydol gweddill 2026/27: Rhwymedigaethau Cynllunio a Seilwaith Y Cynghorydd R Granville Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Y Cynghorydd W Kendall Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins Safonau Parcio Y Cynghorydd J E Pratt Cyflogaeth Y Cynghorydd Martin Hughes
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

273. Cofnod Hyfforddi

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau sy'n rhoi gwybod i Aelodau am fentrau hyfforddi sydd ar ddod.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

274. Eitemau Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2026

I wyllo trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45.